Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanrug
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL55 4AL

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/08/2015**

## Cyd-destun

Ysgol naturiol Gymraeg yw Ysgol Gynradd Llanrug.  Mae wedi ei lleoli ym mhentref Llanrug, rhyw bum milltir o dref Caernarfon yng Ngwynedd.  Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyffiniol.

Ar hyn o bryd, mae 278 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 46 o oed meithrin.  Mae'r niferoedd wedi codi ers yr arolygiad diwethaf a gynhaliwyd yn Hydref 2009.  Darparodd yr awdurdod lleol adeilad newydd ar gyfer dau ddosbarth Blwyddyn 5 a 6 ychwanegol yn Ebrill 2013.  Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ionawr 1991.

Mae deg dosbarth yn yr ysgol, gyda saith ohonynt yn rhai oed cymysg.  Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed.  Mae tua 90% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg.  Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae tua 9% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r canran sirol a cenedlaethol.  Mae 20% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn agos i'r ffigwr cenedlaethol.  Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanrug yn 2014-2015 yw £3,220.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £3,220.  Mae Ysgol Gynradd Llanrug yn y 95ain safle o'r 95 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol Llanrug yn dda oherwydd:

- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda
- Bod gan ran fwyaf y disgyblion fedrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu da
- Bod safonau ymddygiad disgyblion yn uchel a bron pob un ohonynt yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd mewn gwersi
- Bod athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol a bod safon yr addysgu yn gadarn dda
- Bod iddi ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd:

- Bod partneriaethau strategol cadarn ac arloesol yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at safonau ac yn ymestyn profiadau dysgu disgyblion yn sylweddol
- Bod arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad a bywyd yr ysgol
- Bod gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- Bod holl aelodau staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac, o ganlyniad, mae ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus
- Bod gallu'r corff llywodraethol i herio'r ysgol mewn meysydd sydd angen eu gwella yn datblygu'n dda

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau rhifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn cael eu herio'n gyson ar draws y cwricwlwm

A4 Mireinio'r gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn defnyddio eu medrau yn effeithiol ac yn dangos diddordeb a dyfalbarhad yn y gwersi.

Mae medrau gwrando'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen o'r dosbarth meithrin ymlaen yn gwrando'n astud. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae safonau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y Gymraeg yn gadarn gyda bron pob disgybl yn siarad yn eglur. Maent yn mynegi eu syniadau'n hyderus tra byddant wrth eu gweithgareddau ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n eglur ac yn mynegi barn mewn modd aeddfed am ystod o destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn gwrando ar gyfraniadau eraill, gan ystyried eu safbwyntiau. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n effeithiol ac yn unol â'u galluoedd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf ohonynt ddarllen gyda rhuglder cynyddol a dealluswrydd synhwyrol. Maent yn rhagweld beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori ac yn mynegi barn berthnasol am ei gynnwys. Defnyddiant ystod o strategaethau i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth dda. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn y ddwy iaith yn dda i gefnogi eu gwaith mewn ystod o bynciau, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am fywyd pobl yn Oes y Tywysogion.

Mae gwaith ysgrifennu bron pob disgybl yn dangos cynnydd da erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae llawer yn ysgrifennu'n annibynnol gan amrywio eu brawddegau a defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Gallant ddefnyddio ystod ddiddorol o ansoddeiriau a chymariaethau i gyfoethogi eu gwaith. Mae llawer o'r disgyblion yn medru ysgrifennu'n estynedig wrth gofnodi eu profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn gyson dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Maent yn ysgrifennu'n drefnus gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth yn rhesymegol ac yn effeithiol. Mae safon gwaith estynedig y goreuon o ansawdd uchel, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 ysgrifennu portread o gymeriadau o chwedlau'r Mabinogi. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn daclus.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu ymdrin ag ystod eang o weithgareddau rhif yn llwyddiannus. Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion meithrin gyfrif, trefnu a didoli rhifau i 10 yn gywir. Wrth symud drwy'r Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adnabod siapiau, deall pwrpas arian ac yn defnyddio amser yn effeithiol ac ymarferol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn

casglu, dadansoddi a chraffu gwybodaeth ar ffurf graff yn effeithiol. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn synhwyrol wrth ddadansoddi a datrys problemau. Mae safonau rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 mewn gwersi mathemateg yn dda ac maent yn defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau cyfrifo yn gywir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio strategaethau amrywiol o gyfrifo yn y pen ac yn ysgrifenedig yn gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio cyfesurynnau'n gywir i leoli cestyll ar fap o Gymru. Maent yn gwneud defnydd priodol o ddata, er enghraifft wrth gymharu tymheredd mewn gwahanol leoliadau yng Nghymru. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u gallu. Mae rhan fwyaf y disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd, ond nid ydynt bob amser yn cael eu hymestyn ar draws y gweithgareddau dysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch (deilliant 6) mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg wedi codi o'r 25% isaf i'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae perfformiad yr ysgol wedi codi o'r 50% is i'r 25% uchaf. Mewn Cymraeg a Saesneg, mae perfformiad yr ysgol wedi ei gosod yn y 25% uchaf yn y ddwy flynedd diwethaf. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae perfformiad yr ysgol wedi ei gosod yn y 25% uchaf mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5) wedi amrywio yn y pedwar pwnc. Mae perfformiad mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf. Mae perfformiad mewn Saesneg gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 50% is.

Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth dros gyfnod yng nghyflawniad bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen nac ar y lefel ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2. Er hyn, mae'r merched gan amlaf yn gwneud yn well na'r bechgyn ar y lefelau uwch. Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion.

### Lles: Digonol

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach. Maent hefyd yn cyflawni'n gyson dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae bron bob un yn frwdfrydig, yn mwynhau eu gwersi ac yn cyfrannu'n eiddgar ymhob agwedd at eu dysgu.

Mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalus o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser egwyl.
Rhwng 2010 a 2012, roedd presenoldeb disgyblion yn gosod yr ysgol ymysg y 50% uwch o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, ers hynny, mae presenoldeb yn 2013 a 2014 yn gosod yr ysgol yn y 50% is ar 25% isaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae llais y disgyblion yn cael sylw gwerthfawr, gyda'r ysgol yn ymateb yn dda i'w syniadau drwy'r cyngor ysgol. Mae'r aelodau yn mynegi barn ac yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion eraill.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r cynllunio yn ymateb yn briodol i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gweithio'n annibynnol ar dasgau, yn enwedig yn y dosbarth meithrin, yn nodwedd ragorol. Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu allgyrsiol awyr agored arloesol a chyffrous ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn datblygu medrau ehangach ac yn ennill cymwysterau ychwanegol.

Mae amrediad eang o weithgareddau yn sicrhau bod cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a'u medrau meddwl ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn arloesol ac yn galluogi disgyblion i ddefnyddio amryw o adnoddau cyfoes mewn modd creadigol. Enghraifft arbennig o hyn yw'r defnydd o raglen animeiddio i hybu gwaith trawsgwricwlaidd ac i ymestyn iaith lafar Saesneg disgyblion Blwyddyn 5 a 6. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ymestyn eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynnig profiadau gwerthfawr ac amrywiol sy'n hyrwyddo a datblygu gwybodaeth disgyblion o hanes, diwylliant, dathliadau a thraddodiadau Cymreig yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau sy'n sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion cynaliadwyedd. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i godi eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang drwy weithgareddau elusennol a gan ganolbwyntio ar faterion cyfredol.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda, ac maent yn cynllunio ystod amrywiol o weithgareddau diddorol sy'n ysgogi'r disgyblion yn effeithiol. Nodwedd ragorol o'r addysgu yn y Cyfnod Sylfaen yw'r modd y mae'r staff yn hybu medrau dysgu

annibynnol y disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafaredd. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg i gyflwyno'r dysgu ac i esbonio cysyniadau newydd yn glir. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus i sicrhau bod dilyniant o weithgareddau dysgu. Maent yn holi'n dreiddgar er mwyn ymestyn dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion. Er hynny, mewn ychydig o wersi, nid yw'r gweithgareddau dysgu'n cynnig digon o her i ymestyn y disgyblion o allu uwch i wneud cynnydd llawn.

Yn y gwersi, mae'r holl athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion. Maent yn marcio eu gwaith yn gyson ac, yn y rhan fwyaf o'r llyfrau, maent yn cynnwys sylwadau adeiladol ar sut i wella'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant. Anghyson yw'r cyfleoedd a roddir i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. O'r herwydd, nid yw rôl y disgyblion yn y broses o osod targedau a gwella eu gwaith wedi ei sefydlu'n gyson drwy'r ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion dros amser yn sicrhau bod asesiadau athrawon yn gadarn. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth fuddiol am gyflawniadau a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n hyrwyddo lles y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae gweithdrefnau a pholisïau'r ysgol yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hybu ymddygiad cadarnhaol gyda disgyblion yn trin y staff, ymwelwyr a'u cyd-ddisgyblion â pharch. Yn ddiweddar, mae gweithdrefnau addas wedi eu mabwysiadu i wella presenoldeb; fodd bynnag, nid ydynt hyd yma wedi llwyddo i wella lefelau presenoldeb disgyblion.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o asiantaethau arbenigol sy'n cynnwys therapyddion iaith, seicolegwyr addysg a'r gwasanaeth iechyd, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn derbyn cymorth a chynhaliaeth briodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn sicrhau lefel uchel o gynhaliaeth gan ddefnyddio'r system drwyadl ar gyfer targedu disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae rhaglenni ymyrraeth yn bwrpasol ac yn seiliedig ar gynlluniau addysg unigol. Mae'r cynlluniau yn fanwl ac yn cynnwys targedau clir, gyda'r rhieni yn cael eu cynnwys yn y broses o'u llunio a'u hadolygu.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol gan yr ysgol. Mae'n gymuned hapus a chroesawgar lle cynigir mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i bob disgybl. Mae sylw teg i gyfraniad pob unigolyn

a'i safbwyntiau. Mae cydweithrediad, gofal a goddefgarwch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a'i gilydd.

Mae adeiladau'r ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn darparu amgylchedd ysgogol a diogel ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ardaloedd allanol yn annog y disgyblion i werthfawrogi cadw'n iach a'r amgylchedd. Mae'r gofod dysgu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn addas, ac yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at fodloni anghenion y disgyblion.

Mae cyflenwad da o adnoddau, gan gynnwys offer technoleg gwybodaeth ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r waliau o gwmpas yr ysgol yn lliwgar a deniadol ac yn cynnwys amrywiaeth o arddangosfeydd sy'n dathlu llwyddiannau a rhoi bri ar waith y disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad a bywyd yr ysgol. Mae'n rhannu cyfrifoldebau'n llwyddiannus ymhlith yr uwch dîm rheoli ac maent hwythau'n cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llwyddiannus. Maent yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol ac yn canolbwyntio'n gydwybodol ar gyflawniad a chynnydd disgyblion.

Mae pob aelod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n effeithiol iawn. Maent yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod ar y cyd. O ganlyniad, mae ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus. Mae hyn yn arwain at gryfhau'r ddarpariaeth a chodi safonau gwaith disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen o hyfforddiant perthnasol. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel llythrennedd a rhifedd.

Mae'r corff llywodraethol yn gydwybodol a chefnogol i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae trefniadau diweddar yn golygu bod ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o ddata perfformiad a chyflawniad disgyblion, cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. O ganlyniad, mewn amser byr, mae ymyrraeth y llywodraethwyr wedi sicrhau bod eu gallu i herio'r ysgol yn datblygu'n dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu yn drylwyr ac yn defnyddio gwybodaeth o amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r arfarniadau monitro diweddar gan yr uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr am ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn drylwyr. Mae'r ysgol yn ystyried barn rhieni drwy gynnal holiaduron rheolaidd.

Mae'r ysgol yn dadansoddi data cyrhaeddiad y disgyblion yn fanwl ac yn defnyddio'r canfyddiadau'n ystyrlon er mwyn cynllunio ar gyfer gwella. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun eglur o effaith y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar safonau a lles y disgyblion. Mae'n cynnig asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac o ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r broses hunanarfarnu yn bwrpasol ar gyfer pennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r cynllun datblygu yn gryno a manwl. Mae'n nodi targedau perthnasol a phenodol ac mae ynddo feini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau ar gyfer monitro cynnydd.

Mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar wella safonau gwaith disgyblion, er enghraifft mewn safonau darllen Cymraeg a Saesneg.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cadarn ac arloesol sy'n cael effaith arwyddocaol ar safonau ac yn ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae llawer o rieni yn cefnogi'r ysgol yn gydwybodol ac maent yn cyfrannu cyllid sylweddol yn flynyddol sy'n cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ar gyfer darparu adnoddau ychwanegol ac ehangu profiadau disgyblion.

Mae'r cydweithio rhagorol rhwng canolfannau awyr agored lleol wedi esgor ar brofiadau dysgu hynod o gyffrous i ddisgyblion, fel hwylio'n annibynnol mewn catamaran i Gaernarfon a meithrin uwch fedrau dringo a sgïo. Mae'r cyfleoedd hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar holl agwedd disgyblion at fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r pennaeth wedi meithrin cysylltiadau cydweithio rhagorol gydag ysgolion eraill ledled Cymru trwy ddatblygu cynllun arloesol TGCh i hybu gwaith ysgol i ysgol. Mae hyn yn arwain yn llwyddiannus at welliannau mewn safonau gwaith disgyblion yn ogystal â hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae partneriaeth gref ddiweddar gyda'r cyfryngau wedi arwain at gyfle arloesol i rannu arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen gyda chynulleidfa ehangach.

Mae gan yr ysgol berthynas lwyddiannus gyda'r cylchoedd cyn-ysgol. Mae'r disgyblion sy'n trosglwyddo o'r cylch, sy'n cyfarfod ar dir yr ysgol, yn ymgartrefu'n dda yn y dosbarth meithrin oherwydd y cydweithio clos sydd yn digwydd eisoes. Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd, ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio pwrpasol ar gyfer disgyblion.

Cydweithia'r ysgol yn bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd ar raglen i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol raglen gynhwysfawr o weithgarwch cymunedol sy'n ehangu a chyfoethogi profiadau dysgu yn sylweddol ac yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd perthyn i gymuned.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ddeallus ac mae’r holl wariant yn cysylltu’n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau’r ysgol.

Mae’r adnoddau dysgu yn cael eu rheoli’n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion. Mae defnydd effeithiol o’r ardal tu allan yn cynnig profiadau dysgu cyffrous ac yn ysgogi disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae defnydd effeithiol o’r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer cefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae athrawon a chymorthyddion cymwys a brwdfrydig yn cyflwyno’r cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae’r ysgol yn defnyddio arbenigeddau staff yn synhwyrol i wella’r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae trefniadau pwrpasol ar gyfer darparu amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon.

Mae’r pennaeth a staff yr ysgol yn rhan o rwydweithiau dysgu sy’n cynnig ystod gynyddol o gyfleoedd i ysgolion gydweithio ac i staff ddatblygu eu medrau a’u datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad effeithiol sy’n cefnogi anghenion datblygiad proffesiynol parhaus pob aelod o staff. Mae pob hyfforddiant wedi’i gysylltu’n briodol â blaenoriaethau gwella’r ysgol.

Mae’r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612006 - Ysgol Llanrug**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 262 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.3 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 30 | 36 | 32 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 94.4 | 96.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 36 | 32 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 94.4 | 96.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 43.3 | 30.6 | 53.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 36 | 32 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 94.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 43.3 | 27.8 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 36 | 32 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 94.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 83.3 | 63.9 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612006 - Ysgol Llanrug**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 262 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.3 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 34 | 30 | 31 | 39 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 82.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 30 | 31 | 39 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 82.4 | 96.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 29.4 | 30.0 | 67.7 | 41.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 30 | 31 | 39 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.3 | 96.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.6 | 36.7 | 64.5 | 35.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 1 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 30 | 31 | 39 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.2 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.5 | 43.3 | 61.3 | 48.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 1 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 30 | 31 | 39 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.2 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.2 | 23.3 | 64.5 | 51.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 118 | 111<br>94%<br>98% | 7<br>6%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 114 | 98<br>86%<br>92% | 16<br>14%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 118 | 108<br>92%<br>97% | 10<br>8%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 117 | 112<br>96%<br>97% | 5<br>4%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 117 | 115<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 114 | 110<br>96%<br>96% | 4<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 118 | 117<br>99%<br>99% | 1<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 118 | 114<br>97%<br>98% | 4<br>3%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 115 | 107<br>93%<br>91% | 8<br>7%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 117 | 115<br>98%<br>95% | 2<br>2%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 106 | 80<br>75%<br>77% | 26<br>25%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 113 | 86<br>76%<br>84% | 27<br>24%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 104 | 49 | 43 | 11 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 47% | 41% | 11% | 1% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 107 | 66 | 38 | 2 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 62% | 36% | 2% | 1% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 107 | 61 | 44 | 1 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 57% | 41% | 1% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 107 | 43 | 48 | 8 | 3 | 5 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 40% | 45% | 7% | 3% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 107 | 36 | 62 | 2 | 1 | 6 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 34% | 58% | 2% | 1% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 105 | 43 | 47 | 7 | 1 | 7 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 41% | 45% | 7% | 1% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 107 | 42 | 55 | 5 | 0 | 5 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 39% | 51% | 5% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 94 | 25 | 37 | 15 | 7 | 10 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 27% | 39% | 16% | 7% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 107 | 44 | 40 | 12 | 2 | 9 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 41% | 37% | 11% | 2% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 106 | 45 | 53 | 3 | 1 | 4 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 42% | 50% | 3% | 1% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 107 | 60 | 45 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 56% | 42% | 2% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 97 | 30 | 38 | 5 | 1 | 23 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 31% | 39% | 5% | 1% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 107 | 27 | 51 | 22 | 5 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 25% | 48% | 21% | 5% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 107 | 43 | 53 | 8 | 2 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 40% | 50% | 7% | 2% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 107 | 32 | 52 | 14 | 2 | 7 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 30% | 49% | 13% | 2% | | |
| | | 45% | 38% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 105 | 44 | 49 | 8 | 0 | 4 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 42% | 47% | 8% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 85 | 22 | 28 | 10 | 2 | 23 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 26% | 33% | 12% | 2% | | |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 103 | 41 | 52 | 10 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 40% | 50% | 10% | 0% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 106 | 47 | 38 | 13 | 2 | 6 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 44% | 36% | 12% | 2% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Richard Mark Ford | Arolygydd Cymheiriaid |
| Robin Williams | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.